

Peilonau ym Mhontrobert

Diwrnod Ymladd ac Ysgrifennu - Medi 29ain, 2012

Annwyl Preswylwyr Pontrobert
Cymrwch ychydig o amser i ddarllen y llythyr yma os gwelwch yn dda – mae'n ymwneud â dyfodol EICH cefn gwlad chi.

Byddwch yn ymwybodol fod ceisiadau i osod twrbeini gwynt niferus ar fryniau gororau Cymru wedi arwain y Grid Cenedlaethol i benderfynu gosod gorsaf bŵer newydd yng Nghefn Coch, ac yna cyfres o beilonau yn rhedeg o'r orsaf ar hyd Dyffryn Efyrnwy. Yn ddiweddar cafodd llwybr arfaethiedig ar gyfer y peilonau hyn ei ymestyn i gynnwys tir yn agos i bentref Pontrobert, gan effeithio ar drigolion yr ardal gyfagos.

Mae'r broses ymgymghori gan y Grid Cenedlaethol a Scottish Power hyd yma wedi codi gwrthwynebiad cryf, ac o ganlyniad sefydlwyd MAP (Montgomery Against Pylons) i fod ar flaen y gad. Mewn cyfarfod ar Awst 8fed mynegodd nifer o fobl lleol eu barn pendant ynglŷn â chefnogi MAP yn eu hymgyrch parhaus, a daeth criw bychan o wirfoddolwyr Pontrobert at ei gilydd er mwyn symud pethau ymlaen.

Er mwyn gallu cydlynu gwrthwynebiad yn lleol bwriedir cynnal **Diwrnod Ymladd ac Ysgrifennu** yn neuadd Pontrobert ar Ddydd Sadwrn Medi 29ain rhwng 3 ac 8 o'r gloch. Yn ystod y diwrnod yma bydd cyfle i gasglu gwybodaeth a rhannu dulliau o wrthwynebu y peilonau a thwrbeini, fel cefnogi MAP, arwyddo deisebau ac ysgrifennu at ddarparwyr pŵer a gwneuthurwyr penderfyniadau mawr. Bydd lluniaeth ar gael.

Os ydych chi am wneud unrhyw wahaniaeth a dangos mor bwysig yw gofalu am ein tir a'n hardal, dewch i'r neuadd ar Fedi 29ain.

Gwirfoddolwyr dros Gymuned Pontrobert
Pontrobert.pylons@gmail.com